

## Sut i Gyflwyno Adroddiad ar Ran Aelod o Staff

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i lenwi'r ffurflen **Adrodd a Chymorth** pan fyddwch chi'n cyflwyno adroddiad **ar ran aelod o staff**. Mae'n cynnig cyfarwyddiadau cam wrth gam ac yn disgrifio pa wybodaeth sydd ei hangen.

Mae modd i chi weld y ffurflen yn:

**<https://adroddachymorth.cardiff.ac.uk>**

Gallwch chi gyflwyno adroddiad:

- **Gyda eich manylion cyswllt**, neu
- **Yn ddienw**

Gallwch chi newid rhwng yr opsiynau hyn ar unrhyw adeg wrth lenwi'r ffurflen.

Gallwch chi lenwi'r ffurflen hon gan ddefnyddio llywio bysellfwrdd neu dechnoleg gynorthwyol. Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflen neu os oes angen addasiadau arnoch, cysylltwch â'r tîm AD yn [staffreportsupport@caerdydd.ac.uk](mailto:staffreportsupport@caerdydd.ac.uk).

**Mae dwy ffordd y gallwch ddweud wrthym beth ddigwyddodd**

**Dywedwch wrthym gyda manylion**

neu

**Dywedwch wrthym yn ddienw**

## **Tudalen 1 – Disgrifiwch yr hyn a ddigwyddodd**

Rhowch wybod i ni beth yw'r pryder (dewisol)

Defnyddiwch y blwch testun rhydd i esbonio'r digwyddiad yn eich geiriau eich hun. **Nid oes terfyn nodau.** Ychwanegwch gymaint o fanylion ag y teimlwch sy'n briodol.

Hoffwn uwchlwytho delwedd sy'n gysylltiedig â'r hyn a ddigwyddodd (dewisol)

Gallai hyn fod yn sgrinlun neu'n ddelwedd o'r hyn a ddigwyddodd.

No file chosen

Gallwch chi uwchlwytho delweddau fel sgrinluniau o negeseuon neu e-byst neu luniau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad. Ni ellir uwchlwytho fideos. Nid yw'r cwestiwn hwn yn ymddangos ar yr adroddiad dienw.

### Rwyf am godi pryder ar ran (angenrheidiol)

- ☐ Staff
- ☐ Myfyriwr israddedig
- ☐ Myfyriwr ôl-raddedig
- ☐ Math arall o fyfyrwr
- ☐ Ymwelydd
- ☐ Yn well gen i beidio â dweud

Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio orau'r person yr effeithiwyd arno gan y digwyddiad:

- Anfonir adroddiadau sy'n ymwneud ag aelodau o'r staff at y **tîm Adnoddau Dynol (AD)**.
- Anfonir adroddiadau sy'n ymwneud ag unrhyw un arall at y **Tîm Ymyrraeth Cefnogi Myfyrwyr (SSIT)** yn y lle cyntaf.

### Mae'r atgyfeiriad ar gyfer (angenrheidiol)

- ☐ Fi
- ☐ Rhywun arall
- ☐ Yn well gen i beidio â dweud

Mae'r cwestiwn hwn yn ein helpu i ddeall a yw'r adroddiad ar eich cyfer chi, neu rywun arall.

Dewiswch **“Rhywun arall”** os ydych chi'n cyflwyno'r adroddiad ar ran person arall (e.e., aelod o'r tîm rydych chi'n ei reoli).

## **Tudalen 2 – Pryd y Digwyddodd y Digwyddiad**

Rhowch wybodaeth am y dyddiad neu'r amserlen fras ar gyfer y digwyddiad ac a ddigwyddodd yr ymddygiad unwaith neu dro ar ôl tro

**Ydy'r hyn rydych chi'n poeni amdano yn dal i ddigwydd?**  
(angenrheidiol)

- ☐ Ydy, mae'n dal i ddigwydd
- ☐ Roedd yn ddigwyddiad untro
- ☐ Na, mae wedi dod i ben
- ☐ Dydw i ddim yn siŵr
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Pryd ddigwyddodd ddiwethaf?** (angenrheidiol)

- ☐ Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf
- ☐ Mwy na 7 diwrnod ond llai nag 1 mis yn ôl
- ☐ 1-6 mis yn ôl
- ☐ 6-12 mis yn ôl
- ☐ Dros flwyddyn yn ôl
- ☐ Dydw i ddim yn siŵr
- ☐ Ddim yn berthnasol
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## **Tudalen 3 – Math o ddigwyddiad**

Mae'r dudalen hon yn ein helpu i ddeall beth yw math y digwyddiad. Gallwch chi ddewis mwy nag un opsiwn.

### **Byddwn i'n disgrifio'r hyn a ddigwyddodd fel (ofynnol)**

☐

#### **Bwlio**

Ymddygiad bygythiol, maleisus neu sarhaus sy'n fwriadol neu'n anfwriadol yn tanseilio, yn gwaradwyddo, yn dirmygu neu'n anafu'r derbynnydd. Fel arfer, nodweddir bwlio gan batrwm o ymddygiad ond gellid ystyried un digwyddiad yn ymddygiad bwlio.

☐

#### **Gwahaniaethu**

Gwahaniaethu yw pan gaiff person ei drin yn llai ffafriol nag eraill yn seiliedig ar un neu fwy o nodweddion a ddiogelir yn gyfreithiol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

☐

#### **Aflonyddu rhywiol neu fathau eraill o gamymddwyn rhywiol**

Unrhyw ymddygiad digroeso o natur rywiol sydd â'r effaith o dorri eich urddas, yn achosi gofid, yn eich dychryn, ac yn creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol, gwarthus neu sarhaus (mae hyn yn cynnwys yr amgylchedd digidol, ar-lein)

## **Tudalen 4 – Gwybodaeth am y person yr effeithir arno**

(Dim ond wrth adrodd ar ran rhywun arall y mae'r dudalen hon yn ymddangos.)

Rhowch fanylion yr aelod o staff, gan gynnwys eu henw. **Os nad yw'r aelod o staff yn dymuno cael ei enwi**, gallwch chi ysgrifennu: **“Mae'n well gen i beidio â dweud.”**

**Beth yw eu henw? (angenrheidiol)**

Mae'r enw yn ofynnol ond os nad ydyn nhw am gael eu hadnabod nodwch hyn yn y blwch testun rhydd hwn. E.e. teipiwch “Mae'n well gen i beidio â dweud.”

**Beth yw eu e-bost? (dewisol)**

**Beth yw eu dyddiad geni? (dewisol)**

**Beth yw eu rhif staff? (dewisol)**

**A yw'r unigolyn wedi cydsynio i lenwi'r ffurflen hon?**  
(angenrheidiol)

☐

Ydyn

☐

Nac ydn

## **Tudalen 5 – Ble mae'r Aelod o Staff yn Gweithio**

Dewiswch yr ysgol, yr adran, neu faes y Gwasanaethau Proffesiynol lle mae'r aelod o staff wedi'i leoli. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei anfon at y tîm AD cywir.

### **Mae'r person yn gweithio yn (angenrheidiol)**

- ☐ Ysgol Busnes Caerdydd
- ☐ Lifelong Learning
- ☐ Gwasanaethau Proffesiynol
- ☐ Yr Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth
- ☐ Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio
- ☐ Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd
- ☐ Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant
- ☐ Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth
- ☐ Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol
- ☐ Ysgol y Gymraeg

## **Tudalen 6 – Leoliad y digwyddiad**

Cadarnhewch ble digwyddodd y digwyddiad. Mae enghreifftiau wedi cael eu darparu.

**Ble mae wedi bod yn digwydd/wedi digwydd?**  
(angenrheidiol)

- ☐ Ar y campws
- ☐ Digwyddiad sy'n gysylltiedig â gwaith oddi ar y campws  
(enghreifftiau: cynhadledd, cymuned ymarfer, cwrs hyfforddi)
- ☐ Digwyddiad cymdeithasol oddi ar y campws  
(enghreifftiau: parti Nadolig, dathliad gadael, parti graddio)
- ☐ Digwyddiad oddi ar y campws nad yw'n gysylltiedig â gwaith  
(enghreifftiau: e-bost / cyfryngau cymdeithasol / timau)
- ☐ Ar-lein  
(enghreifftiau: e-bost / cyfryngau cymdeithasol / timau)

## **Tudalen 7 – Pwy Gyflawnodd yr Ymddygiad**

Darparwch unrhyw wybodaeth sydd gennych chi am y person sy'n gyfrifol am yr ymddygiad. Os nad ydych chi'n gwybod yr wybodaeth hon, atebwch hyd eithaf eich gwybodaeth.

**Ydych chi'n gwybod rhif myfyriwr yr unigolyn a gyhuddir?  
(dewisol)**

☐ Myfyriwr

☐ Staff

☐ Partner

☐ Ymwelydd

☐ Anhysbys

☐ Arall

**Ydych chi'n gwybod enw'r unigolyn a gyhuddir? (dewisol)**

**Ydych chi'n gwybod rhif staff yr unigolyn a gyhuddir?  
(dewisol)**

## **Tudalen 8 – Math o Wahaniaethu (Os yn berthnasol)**

Os ydych chi'n credu bod gwahaniaethu wedi digwydd, gallwch chi ddewis un neu fwy o nodweddion gwarchodedig a oedd yn berthnasol

**Ydych chi'n teimlo bod unrhyw un o'r ffactorau canlynol wedi chwarae rhan yn y digwyddiad?**

**– Dewiswch bob un sy'n berthnasol? (dewisol)**

- ☐ Oedran
- ☐ Bod yn draws/an-ddeuaidd
- ☐ Bod yn anabl neu â chyflwr hirdymor
- ☐ Cyfrifoldebau gofalu
- ☐ Ethnigrwydd/hil
- ☐ Rhyw
- ☐ Cael plant/bod yn feichiog
- ☐ Cenedligrwydd
- ☐ Crefydd/cred
- ☐ Cyfeiriadedd rhywiol
- ☐ Dim
- ☐ Arall

## **Tudalen 9 – Eich manylion cyswllt**

**Os ydych chi'n cyflwyno'r ffurflen yn ddiennw, ni fydd y dudalen hon yn ymddangos**

Rhowch eich manylion cyswllt i ni ar y dudalen hon. Mae hyn yn caniatáu i'r tîm AD gysylltu â chi -os oes angen.

**Eich enw cyntaf**

**Eich cyfenw**

**Eich cyfeiriad e-bost**

**Eich rhif ffôn**

**Eich rhif myfyriwr/staff (dewisol)**

**A allwn ddefnyddio'r wybodaeth uchod i gysylltu â chi?  
(angenrheidiol)**

☐

Cewch

☐

Na chewch

## **Tudalen 10 – Gwybodaeth Ychwanegol**

**Mae'r cwestiynau hyn yn benodol i lwybro'r staff.**

**Oes angen cymorth pellach arnoch gan Adnoddau Dynol i ddatrys y mater hwn? (angenrheidiol)**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes

**Os ydych chi'n cyflwyno'r ffurflen yn ddiennw, ni fydd y cwestiwn hwn yn ymddangos**

Os byddwch chi'n ticio ie am gymorth pellach gan Adnoddau Dynol, bydd yn sicrhau bod eich adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r aelod Adnoddau Dynol priodol a fydd wedyn yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch adroddiad.

Os byddwch chi'n clicio na, bydd eich adroddiad yn cael ei gau a'i ddefnyddio ar gyfer dadansoddi data.

Byddwch chi'n derbyn e-bost yn cadarnhau sut mae eich adroddiad wedi cael ei brosesu.

**Ydych chi wedi trafod y digwyddiad hwn gyda rhywun arall o'r blaen? (angenrheidiol)**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

Os byddwch chi'n clicio ie, bydd blwch testun rhydd yn ymddangos er mwyn i chi allu rhoi rhagor o wybodaeth am bwy rydych chi wedi siarad â nhw o'r blaen, gallwch chi roi enwau penodol pobl i ni, neu sut maen nhw'n perthyn i chi (e.e. rheolwr llinell, pennaeth ysgol, cynghorydd AD lleol ac ati).

## **Tudalen 11– Gwybodaeth am Gydraddoldeb**

Mae'r cwestiynau hyn yn helpu'r Brifysgol i fonitro cydraddoldeb.

Gallwch chi ddewis:

- ateb pob cwestiwn
- hepgor unrhyw gwestiynau
- hepgor y dudalen yn gyfan gwbl

**Nid yw'r cwestiynau hyn yn orfodol.**

## **Adolygiad Terfynol a Chyflwyno Eich Adroddiad**

Cyn anfon y ffurflen, byddwch chi'n gweld tudalen crynodeb yn dangos eich holl atebion.

Gallwch chi glicio “Newid” wrth ymyl unrhyw ateb i'w olygu. Pan fyddwch chi'n fodlon, dewiswch “Anfon ffurflen” i gyflwyno'ch adroddiad. Ar ôl i chi gyflwyno eich adroddiad, ni fyddwch chi'n gallu newid unrhyw un o'ch atebion.